Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 18.02.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## COVID-19: Dim angen Pás COVID mwyach ar gyfer digwyddiadau dan do ac awyr agored

O heddiw (18 Chwefror 2022) ymlaen, ni fydd y Pás COVID domestig yn ofynnol bellach ar gyfer mynediad i ddigwyddiadau a lleoliadau dan do neu awyr agored, gan gynnwys clybiau nos, sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd. Gall lleoliadau barhau i ddewis defnyddio'r Pás COVID domestig yn wirfoddol fel rhan o'u hasesiad risg coronafeirws a mesurau rhesymol.

Mae cynnal asesiad risg coronafeirws yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau ar hyn o bryd, a rhaid gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o

coronafeirws. Mae'r canllawiau diweddaraf Lefel Rhybudd 0 i fusnes ar gael ar:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

# CYFLOGAETH: Cymorth Recriwtio Prentisiaid

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhellion i helpu busnesau i recriwtio prentisiaid tan 28 Chwefror 2022 (yn amodol ar argaeledd cyllideb). Mae cymorth ar gael tuag at gost hyfforddiant ac asesiadau, ac mae busnesau o bob maint ac ym mhob sector yn gymwys. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3sXrrfK

# CYFLOGAETH: Busnes Cymru – Yn Gefn i Chi

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth recriwtio a chymorth ariannol penodol i helpu cyflogwyr i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ymuno â'u tîm drwy brofiad gwaith, lleoliadau gwaith neu gyflogaeth. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/yn-gefn-i-chi

# CYFLE: CIST – Prosiect Sero Net Gwynedd

Mae'r Ganolfan Isadeiledd, Sgiliau a Thechnoleg (CIST) yn datblygu cyrsiau fydd yn helpu'r diwydiant adeiladu lleol i ennill y sgiliau i fodloni lefelau cymhwysedd yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â thechnolegau glân newydd ac effeithlonrwydd ynni. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gllm.ac.uk/cy/busnes/projects/cist-project-net-zero-gwynedd

Gall Busnes Cymru hefyd helpu efo’r Addewid Twf Gwyrdd, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/addewid-twf-gwyrdd

# DIOGELWCH: Cynllun Cyber Essentials newydd

Mae’r cynllun Cyber Essentials yn gynllun ardystio sy’n cynorthwyo sefydliadau o bob maint i’w diogelu eu hunain yn erbyn bygythiadau ar-lein a dangos ymrwymiad i seiberddiogelwch i gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Mae adolygiad technegol manwl wedi’i gwblhau o’r cynllun, a fydd yn helpu sefydliadau i sicrhau bod data pwysig yn cael ei drin yn ddiogel a bod eu rhwydweithiau yn ddiogel hefyd. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/cynllun-cyber-essentials-newydd

# GWOBRAU: Dathlu Gwobrau Busnesau Bach 2022 FSB – ceisiadau yn cau 27 Chwefror 2022

Bydd ceisiadau ar gyfer Gwobrau Dathlu Busnesau Bach FSB 2022 yn cau ar 27 Chwefror 2022, gyda rownd derfynol Cymru yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ar 8 Ebrill 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.fsbawards.co.uk/

# YMGYRCH: Pythefnos Masnach Deg 2022

Bob blwyddyn mae Pythefnos Masnach Deg yn rhoi cyfle i bobl ledled y DU ddathlu cyflawniadau Masnach Deg a dysgu mwy am y gwahaniaeth mae Masnach Deg yn ei wneud. Cynhelir yr ymgyrch eleni rhwng 21 Chwefror a 6 Mawrth 2022 a’r thema yw

– 'Dewis y Byd yr ydych ei Eisiau'. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://masnachdeg.cymru/campaign/fairtrade-fortnight-2022/

## TRETH: Bron i 100,000 o gwsmeriaid yn lledaenu cost eu bil treth

Gall cwsmeriaid Hunanasesu ddefnyddio cynllun talu ar-lein CThEM os ydynt wedi ffeilio eu ffurflen dreth 2020 i 2021 ac nad ydynt yn gallu talu eu bil yn llawn. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/almost-100000-customers-spread-the-cost-of-their-tax-bill

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru